

**CYNGOR BRO MORGANNWG,
ADRAN GORCHYMYN CAU FFORDD DROS DRO
DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984
HANNER MARATHON CAERDYDD - PENARTH
DYDD SUL 4 HYDREF 2026**

RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN bod Cyngor Bro Morgannwg wedi gwneud gorchymyn dan Adran 16A Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel a ganlyn:- y bydd y strydoedd neu'r rhannau o strydoedd a nodir yng ngholofn 2 yr Atodlen yn cael eu defnyddio i gynnal digwyddiad perthnasol fel y nodir yn Adran 16(A)(1) Deddf Rheoleiddio Traffig 1984 yn ystod rhai oriau'r dydd fel y nodir yng ngholofn 1 yr Atodlen, ac mae'r Cyngor, dan y pwerau a roddir iddo drwy Adran 16A Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn rhoi **GORCHYMYN A CHYFARWYDDYD** i hwyluso'r digwyddiad, galluogi'r cyhoedd i wylïo'r digwyddiad hwnnw a lleihau'r tarfu ar draffig y mae'r digwyddiad yn debygol o'i achosi i gydymffurfio â'r gorchymyn canlynol:-

Y BYDD, ac eithrio'r hyn a ddarperir gan y Gorchymyn, y strydoedd neu'r rhannau o strydoedd a enwir, ar gau i gerbydau gan gynnwys beiciau pedal, **ac eithrio Cerbydau'r Gwasanaethau Brys** rhwng yr oriau a nodir yng ngholofn 3 yr atodlen. Y gosb am dorri'r rheoliad a nodir yw dirwy na fydd yn fwy na £1000.00.

Atodlen		
Colofn 1	Colofn 2	Colofn 3
Dydd Sul 4 Hydref 2026	1/ A4055 – Cogan Spur (ar gau tua'r ddau gyfeiriad) o'r gyffordd ag A4160 Heol Penarth tua'r gogledd ddwyrain at ffin y sir. 2/ A4160 - Windsor Road (Cogan Hill) ar gau tua'r de-ddwyrain o'r gyffordd ag A4055 Cogan Spur at y gyffordd â Marconi Avenue, bydd hyn yn cynnwys y gylchfan ym Marconi Avenue, ond caniateir i draffig adael Penarth tua'r gogledd-orllewin yn unig. 3/ A4160 – Heol Penarth (ar gau tua'r ddau gyfeiriad) o'r gyffordd ag A4055 Cogan Spur/Barry Road tua'r gogledd-orllewin yn gyffredinol at ffin y sir â Chaerdydd wrth Afon Elái. 4/ A4055 - Barry Road o'r gyffordd ag A4160 Heol Penarth tua'r de-orllewin yn gyffredinol at y gyffordd â Penlan Road yng nghyffordd Merrie Harrier i Landochau (bydd y ffordd hon ar gau i draffig tua'r gogledd-ddwyrain yn unig ac yn caniatáu traffig i adael o Benarth i gyffordd Merrie Harrier). 5/ Bryn Llandochoau (ar gau tua'r ddau gyfeiriad), o'r gyffordd â Heol Penarth am bellter o tua 210m tua'r gorllewin yn gyffredinol. 6/ Marconi Avenue (ar gau tua'r ddau gyfeiriad), o'r gyffordd ag A4160 Windsor Road (Cogan Hill) at y gyffordd â Terra	09.00am tan 12.00 hanner dydd

	Nova Way, yn cynnwys cylchfan Terra Nova Way. 7/ Terra Nova Way (tua'r ddau gyfeiriad) ar ei hyd. 8/ Penarth Portway (ar gau tua'r ddau gyfeiriad) rhwng Terra Nova Way a maes parcio'r morglawdd, yn cynnwys y gylchfan yn y gyffordd â Terra Nova Way. 9/ Paget Road (Dock Road) (ar gau tua'r ddau gyfeiriad), ar gau rhwng y gyffordd â Paget Terrace a Penarth Portway, yn cynnwys y gylchfan yn y gyffordd â Penarth Portway.	09.00am tan 12.00 hanner dydd
--	--	--

Bydd arwyddion gwyriadau. Bydd gwyriadau ffordd ar gyfer defnyddwyr na allent ddefnyddio A4055 Cogan Spur/Barry Road ac A4160 Heol Penarth, ar hyd B4267 Penlan Road a Heol Lecwydd; oherwydd pont wan ar waelod Bryn Lecwydd, ni fydd y ffordd hon yn addas i gerbydau trymach na 7.5 tonnelli (11 tonnelli os mai cerbyd gwasanaethau cyhoeddus ar ffordd leol, cerbyd y Gwasanaethau Brys neu gerbyd Cynnal Priffyrdd yr Awdurdod Lleol ydynt), bydd yn rhaid i gerbydau mwy deithio ar hyd A4231 Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri ac A4050 Port Road.

Dyddiedig 17 Medi 2026

Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg
Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA